

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Celtic

Dyddiad yr arolygiad: 15 Tachwedd 2023

Dyddiad cyhoeddi: 15 Chwefror 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: <https://www.agic.org.uk/>

ISBN Digidol 978-1-83577-573-8

© Hawlfraint y Goron 2024

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	8
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	19
4.	Y camau nesaf .....	22
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	23
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	24
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	25

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Celtic ar 15 Tachwedd 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 36 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 5 gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis yn rhoi gofal urddasol a pharchus i'r cleifion drwy gyfathrebu â nhw yn eu dewis iaith, darparu gwasanaeth wedi'i deilwra at yr unigolyn i'r cleifion a gweld y cleifion yn brydlon. Ategwyd hyn gan yr hyn a ddywedodd y cleifion wrthym yn holiadur AGIC i gleifion a dywedodd rhai cleifion wrthym nad oeddent yn gwybod sut i gael gafael ar ofal deintyddol brys.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Y wybodaeth sydd ar gael i'r cleifion ynghylch cael gafael ar ofal deintyddol brys.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon ac roedd apwyntiadau brys yn cael eu brysbennu'n briodol
- Cefnogi'r cleifion yn eu dewis iaith lle bynnag y bo modd
- Dywedodd y cleifion fod y gwasanaeth roeddent yn ei gael yn 'dda iawn' (30/34) neu'n 'dda' (4/34).

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis yn lân ac yn daclus y tu mewn a'r tu allan, ac roedd asesiad risg priodol hefyd yn cael ei gynnal o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gofal a ddarperir. Gwelsom fod meysydd i'w gwella mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi, ac mewn perthynas â'r manylion a gaiff eu cynnwys yng nghofnodion y cleifion. Nodwyd gennym fod gweithdrefnau diogelu'r practis yn cydymffurfio â'r gofynion a bod y cynlluniau parhad busnes yn foddhaol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod trefniadau cadarn a rheolaidd ar gyfer archwilio'r cyfarpar brys
- Sut y caiff cyfarpar clinigol a chyfarpar glanhau eu storio
- Sut y caiff cyfarpar dihalogi ei brofi a'r drefn er mwyn cynnal y broses yn ddiogel
- Roedd angen gwella rhannau o gofnodion y cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Practis glân a thaclus

- Roedd asesiadau risg yn fanwl ac yn gyfredol.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

- Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y practis a gwelsom fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd y staff wedi cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol ac roedd yr holl rwymedigaethau proffesiynol ar waith yng nghofnodion yr aelodau o staff y gwnaethom edrych arnynt. Nodwyd gennym fod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas ag asesu'r risg ar gyfer y gwiriadau cyn cyflogi a oedd ar goll ar gyfer aelodau o staff a fu'n gweithio yn y practis ers amser hir ac mewn perthynas â chasglu adborth gan gleifion, a nodwyd gennym fod angen cwblhau rhai archwiliadau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal ymarfer datblygu tîm, fel y rhai a gaiff eu darparu gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
- Asesu'r risg ar gyfer y wybodaeth cyn cyflogi a oedd ar goll ar gyfer aelodau o staff a fu'n gweithio yn y practis ers amser hir
- Datblygu system ar gyfer casglu adborth a'i gyhoeddi at sylw'r cleifion

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn gyfredol ac roedd pob aelod o'r staff yn cydymffurfio â'r gofynion o ran hyfforddiant gorfodol
- Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac roedd cofnodion yn cael eu cymryd.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion gan y cleifion yn gadarnhaol. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' (30/34) neu'n 'dda' (4/34). Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

*“Sylwgar a chwrtais iawn bob amser. Staff da yn y dderbynfa”*

*“Staff cyfeillgar iawn, awyrgylch hyfryd”*

*“Negeseuon e-bost rheolaidd i atgoffa am apwyntiadau”*

*“Practis rhagorol”*

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

*“Siomedig nad yw'n darparu gwasanaeth gan y GIG mwyach. Gyda'r holl gostau sydd i ddod ym maes iechyd ac ati, rwy'n ystyried o ddifrif a ddylwn dalu cymaint am ofal deintyddol”*

*“Rwy'n cael gwasanaeth preifat ar hyn o bryd, ond hoffwn wybod a fydd opsiynau i ddychwelyd i wasanaeth gan y GIG ar gael yn y dyfodol”*

*“Dim opsiwn i blant gael gwasanaeth y GIG”*

#### Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

##### Hybu Iechyd

Gwelsom fod gwybodaeth glir yn cael ei harddangos yn y dderbynfa i hybu arferion brwsio dannedd da, manteision defnyddio edau ddannedd a dogfennaeth gymorth ar gyfer diabetes a rhoi'r gorau i smygu. Gwnaethom nodi bod manylion am daliadau, enwau'r ymarferwyr a'u rhifau gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ynghyd ag oriau agor a manylion cyswllt mewn argyfwng wedi'u harddangos.



Nodwyd gennym fod gwybodaeth ar gael yn ddwyieithog i gleifion a dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i holiadur AGIC i gleifion (34/35) fod y staff wedi esbonio iechyd eu ceg iddynt mewn modd y gallent ei ddeall drwy gydol eu hapwyntiad, a'u bod wedi cael cyngor ôl-ofal addas (34/35).

### **Gofal Urddasol a Pharchus**

Gwelsom fod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal gan fod gwydr barugog ar ddrysau'r deintyddfeydd a bleinds er mwyn atal pobl rhag gallu gweld y cleifion o'r tu allan. Roedd ardal aros a derbynfa ar y cyd a gallai'r cleifion siarad â'r staff mewn ystafell ochr breifat ar gyfer sgysiau cyfrinachol. Hefyd, gwelsom fod sgriniau yn cael eu defnyddio wrth y ddesg er mwyn atal pobl rhag gallu clywed galwadau ffôn.

Clywsom drafodaethau parchus a phroffesiynol rhwng cleifion a staff drwy gydol ein harolygiad. Roedd codau ymarfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos y tu ôl i ddesg y dderbynfa.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC (34/35) fod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch, eu bod wedi gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad a'u bod wedi ateb eu cwestiynau (33/34).

### **Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys yn y penderfyniadau am y triniaethau a oedd ar gael, a bod y staff wedi esbonio'r risgiau a'r manteision iddynt.

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion (27/32) a ymatebodd i'r cwestiwn yn holiadur AGIC wrthym eu bod yn gwybod beth i'w wneud pe byddai ganddynt argyfwng neu haint, a dewisodd pedwar claf yr opsiwn 'ddim yn gymwys'. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r practis yn datrys unrhyw bryderon neu gwynion ar ôl triniaeth (25/32). Roedd un claf yn anghytuno, a dewisodd chwe chlaf arall yr opsiwn 'ddim yn gymwys'.

Nododd pob aelod o'r staff yn holiadur AGIC i staff eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn ei roi i gleifion.

## **Amserol**

### **Gofal Amserol**

Dywedwyd wrthym y byddai staff y dderbynfa yn rhoi gwybod i'r cleifion pe bai oedi o fwy na phum munud cyn apwyntiad. Gwelsom fod cyfleuster anfon

negeseuon ar y system rheoli cofnodion cleifion a allai roi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi hirach neu pe bai angen canslo apwyntiad.

Gwelsom fod slotiau ar gyfer apwyntiadau brys wedi'u cynllunio ddwywaith y dydd ar gyfer pob deintydd. Roedd cleifion yn cael eu brysbennu dros y ffôn gan staff y dderbynfa gan ymgynghori ag ymarferydd deintyddol. Cawsom wybod y byddai cleifion yr oedd angen triniaeth frys arnynt yn cael eu gweld o fewn 24 awr.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod yn ei chael hi'n hawdd iawn (20/35) neu'n eithaf hawdd (13/35) cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Dywedodd 12 o ymatebwyr i holiadur AGIC i gleifion na fyddent yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

**Dylai'r rheolwr cofrestredig wella'r wybodaeth sydd ar gael i'r cleifion ynghylch cael gafael ar ofal deintyddol brys.**

## **Teg**

### **Cyfathrebu ac iaith**

Gwelsom fod arwyddion a thafleuni ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a dywedodd y staff wrthym fod ymdrech yn cael ei gwneud bob amser i sicrhau bod unrhyw wybodaeth ar gael yn Gymraeg. Gwelsom fod aelodau o'r staff yn gwisgo bathodynau 'Iaith Gwaith' a dywedwyd wrthym fod adnoddau cyfieithu ar-lein yn cael eu defnyddio er mwyn darparu gwasanaeth yn newis iaith claf.

Gwnaethom weld dyfais ddigidol yn cael ei defnyddio i gasglu gwybodaeth am y cleifion wrth iddynt gyrraedd. Gwelsom y gellid darparu'r ddyfais hon mewn ieithoedd gwahanol i gleifion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf o bosibl. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn darparu gwybodaeth yn newis iaith y cleifion lle bynnag y bo modd.

Cadarnhaodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod gwybodaeth gofal iechyd ar gael yn eu dewis iaith.

### **Hawliau a Chydraddoldeb**

Gwelsom fod y practis yn cynnal hawliau a chydraddoldeb cleifion drwy ddefnyddio polisi addas ar gyfer derbyn cleifion. Hefyd, gwelsom bolisi amrywiaeth a chydraddoldeb cynhwysfawr a oedd wedi cael ei ddiweddarau'n ddiweddar a gwelsom fod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn nodwedd amlwg yn y broses recriwtio a'r rhestrau gwirio.

Roedd gan y practis ddull dim goddefgarwch mewn perthynas ag ymddygiad sarhaus gan gleifion, ac roedd posteri i hyrwyddo hyn o amgylch y practis. Hefyd, gwelsom fod addasiadau rhesymol wedi cael eu gwneud i gefnogi'r staff yn y gweithle.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cefnogi cleifion trawsryweddol drwy ddiwygio eu cofnodion, ar gais, i gynnwys y rhagenwau a ffefrir ganddynt yn ogystal â ffenestri naid ar y system i'r staff er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch.

Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym nad oeddent wedi wynebu unrhyw fath o wahaniaethu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth hwn. Nododd y mwyafrif o'r cleifion (34/35) fod yr adeilad yn hygyrch. Nododd un ymatebydd nad oedd yn siŵr.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli Risg

Gwelsom fod y practis yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Roedd tair deintyddfa o faint priodol ynghyd ag ardal aros a derbynfa o faint addas. Nodwyd gennym fod y goleuadau, y gwres a'r awyru yn briodol ac roedd yr arwyddion ym mhob rhan o'r practis yn glir. Nododd ymatebion y staff i holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y cyfleusterau sydd ar gael iddynt yn briodol i gyflawni eu tasgau penodol ac yn briodol i sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt.

Clywsom fod y llinellau ffôn yn gweithio'n effeithiol, roedd cyfleusterau newid ar gael i'r staff ac roedd toiled derbyniol ar gael iddynt hefyd. Gwelsom fod y practis yn addas i gleifion ag anawsterau symudedd ac roedd y toiled i gleifion hefyd yn cynnwys cyfarpar priodol ac wedi'i osod mewn ffordd a fyddai'n diwallu anghenion cleifion anabl.

Nodwyd gennym fod y cyfarpar deintyddol yn gweithio'n iawn a bod eitemau untro yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol. Gwelsom fod offer dal nodwydd yn cael ei ddefnyddio i hybu triniaethau diogel ac effeithiol ac atal anafiadau.

Gwelsom fod cynllun parhad busnes priodol ar waith ac roedd y staff yn deall eu cyfrifoldebau pe bai argyfwng. Roedd polisi cynllunio ar gyfer trychinebau a gweithdrefnau brys ar waith ynghyd â pholisi hysbysu pe bai angen cau'r practis, ac roedd y ddau wedi cael eu diweddarau'n ddiweddar. Nodwyd gennym fod polisi iechyd a diogelwch y practis yn cael ei adolygu bob blwyddyn. Gwelsom fod yr asesiad risg iechyd a diogelwch yn cael ei adolygu bob blwyddyn hefyd, yn ogystal â'r asesiad risg amgylcheddol.

Gwelsom dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr y practis wrth y dderbynfa ac roedd poster yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i'w weld yn yr ystafell staff.

Roedd risgiau tân wedi cael eu hasesu'n briodol yn y ddogfennaeth asesu risg y gwnaethom edrych arni a oedd wedi cael ei diweddarau'n ddiweddar. Nodwyd y canlynol gennym hefyd:

- Roedd cyfarpar ymladd tân a goleuadau argyfwng yn cael eu harchwilio bob blwyddyn ac roedd disgwyl i'r archwiliad nesaf gael ei gynnal ym mis Rhagfyr 2023

- Roedd y larymau tân yn cael eu profi bob wythnos
- Roedd ymarferion ar gyfer gwagio'r adeilad pe bai tân yn cael eu cynnal bob chwe mis, a chawsant eu cynnal ddiwethaf ym mis Mehefin 2023
- Roedd contractau ar waith ar gyfer cynnal a chadw a gwasanaethu'r larymau tân, y goleuadau argyfwng a'r cyfarpar ymladd tân
- Roedd diffoddwyr tân yn cael eu storio'n gywir mewn lleoliadau priodol o gwmpas yr adeilad ac roedd pob un ohonynt yn bodloni'r dyddiadau gwasanaethu.

Gwelsom fod arwyddion ar gyfer allanfeydd tân a llwybrau dianc a bod y staff yn eu gwirio bob wythnos. Roedd arwyddion dim smygu i'w gweld yn glir ym mhob rhan o'r practis hefyd. Nodwyd gennym fod annibendod a chwprdd yn cuddio un o'r pwyntiau galw pe bai tân wrth ymyl yr ystafell staff. Cafodd y mater ei uwchgyfeirio at sylw'r staff ar y diwrnod a chafodd yr ardal ei chlirio. Nid oedd gwiriadau o'r pwyntiau galw yn rhan o restr wirio'r practis ar gyfer tân.

**Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwiriadau cadarn ar waith ar gyfer pob agwedd ar ddiogelwch tân.**

#### **Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi**

Gwelsom bolisi cyfredol ac addas ar gyfer atal a rheoli heintiau a dihalogi. Gwelsom staff yn defnyddio lefelau priodol o gyfarpar diogelu personol (PPE) ac yn ei newid yn rheolaidd. Dywedodd ymatebwyr i holiadur AGIC i staff wrthym eu bod yn cael cyfarpar diogelu personol priodol a bod amserlen lanhau effeithiol ar waith.

Nodwyd gennym fod aelod o staff wedi dod yn gyfrifol am lanhau'r practis yn ddiweddar ers i'r glanhäwr dynodedig adael. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod o'r farn bod y practis yn lân iawn (35/35). Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (33/35) yn teimlo bod y staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau, a dywedodd un claf:

*“Cwbl hyderus o ran glendid y practis”*

Dywedodd claf arall:

*“Nid oedd y staff yn gwisgo masgiau heddiw”*

Gwelsom fod mopiau gwahanol yn cael eu defnyddio i lanhau ardaloedd gwahanol, ond nodwyd gennym eu bod yn cael eu storio mewn mannau gwahanol o gwmpas y practis, roedd dau fop yn cael eu cadw yn y gegin ac roedd mopiau'n cael eu gadael i sychu yn eu bwcedi.

**Dylai'r rheolwr cofrestredig adael mopiau i sychu'n briodol a storio pob un ohonynt mewn man addas.**

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu dyletswyddau o ran trefniadau atal a rheoli heintiau a dihalogi effeithiol ac roeddent yn gallu enwi eu harweinydd dynodedig. Gwelsom o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau. Gwelsom fod y practis wedi newid i fod yn bractis preifat yn unig o fis Ebrill 2023 ond ei fod yn defnyddio cymorth iechyd galwedigaethol y bwrdd iechyd o hyd. Awgrymwyd y dylai'r practis siarad â'r bwrdd iechyd ac adolygu'r ddarpariaeth hon.

Yn y deintyddfeydd, gwelsom ddroriau a oedd yn cynnwys cyfarpar clinigol ar gyfer y geg y gellir ei ailddefnyddio a oedd wedi cael ei lanhau ond a oedd yn cael ei storio heb ei orchuddio. Roedd dalwyr pelydr-X heb ddeunydd pecynnu o'u hamgylch yn y deintyddfeydd hefyd.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr holl gyfarpar clinigol ei gadw wedi'i ddiheintio a'i storio'n briodol.**

Gwnaethom fwrw golwg dros brosesau dihalogi'r practis a gaiff eu cwblhau ym mhob deintyddfa a gwelsom fod offer yn cael ei lanhau â llaw cyn ei sterileiddio. Gwelsom nad oedd dyfeisiau cofnodi digidol ar y peiriannau awtoclaf, a bod profion a gaiff eu hamseru â llaw yn cael eu cynnal ar gyfer pob cylchred. Nid oedd hyn yn ein sicrhau bod digon o brofion yn cael eu cynnal.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd i AGIC fod profion yn cael eu cynnal mewn ffordd gadarn ar y peiriannau awtoclaf.**

Gwelsom fod lle yn brin yn yr ardaloedd dihalogi ym mhob deintyddfa ac nad oedd yr ardaloedd hyn wedi'u diffinio'n glir fel ardaloedd 'glân' a 'budr', y gallai'r ddau beth gynyddu'r risg o groes-halogi. Nodwyd gennym hefyd fod y bath ar gyfer argraffiadau a ddefnyddir i ddihalogi yn cael ei gadw yn rhan 'lân' yr ardal ddihalogi.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig nodi rhannau 'glân' a 'budr' ardaloedd dihalogi yn glir ac ar ffurf weledol.**

**Dylai'r rheolwr cofrestredig symud y bath ar gyfer argraffiadau o ran 'lân' y broses ddihalogi.**

Gwnaethom edrych ar gofnodion a oedd yn dangos bod trefniadau atal a rheoli heintiau yn cael eu harchwilio'n rheolaidd, yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 a gwelsom fod amserlen ar gyfer cynnal a chadw'r peiriannau

awtoclaf yn rheolaidd. Gwelsom nad oedd y ddogfennaeth ar gyfer gwirio'r deintyddfeydd yn ddyddiol wedi cael ei chwblhau ers mis Rhagfyr 2022.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff rhestrau gwirio dyddiol ar gyfer y deintyddfeydd eu cofnodi fel mater o drefn.**

Gwelsom fod pob rhan o'r practis mewn cyflwr da ar y cyfan, ond roedd defnydd cadair triniaeth yn un o'r deintyddfeydd wedi rhwygo. Ni chawsom sicrwydd y gellid glanhau'r cadeiriau hyn yn effeithiol oherwydd eu cyflwr.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw er mwyn gallu ei lanhau a'i ddihalogi'n ddiogel.**

Gwelsom dystiolaeth bod y broses ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn cael ei rheoli'n addas a bod asesiad risg yn cael ei gwblhau, a gwnaethom edrych ar ffolder COSHH gynhwysfawr y practis. Gwelsom fod gwastraff y practis yn cael ei drin yn briodol gan y staff a'i fod yn cael ei waredu drwy gontract gwaredu gwastraff addas heblaw am fodelau gypswm a oedd yn cael eu dychwelyd i'r cleifion.

**Dylai'r rheolwr cofrestredig gynnwys gypswm fel rhan o'r contract gwaredu gwastraff.**

### **Rheoli Meddyginiaethau**

Gwelsom nad oedd y staff yn cynnig meddyginiaethau fel mater o drefn, heblaw am y rhai a ddefnyddir mewn argyfwng. Nodwyd gennym fod polisi addas ar gyfer cael, trin a defnyddio meddyginiaethau a'u cadw'n ddiogel. Gwelsom fod meddyginiaethau brys yr oedd eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio yn cael eu gwaredu mewn fferyllfa leol, gan gynnwys y rhai a restrwyd fel cyffuriau a reolir o dan ddeddfwriaeth camdefnyddio cyffuriau. Dywedodd y staff wrthym nad oeddent yn cael unrhyw dderbynebaw wrth waredu'r cyffuriau a reolir hyn ac ni welsom unrhyw dystiolaeth ar ffeil eu bod yn cael eu gwaredu.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal llwybr archwilio cadarn wrth waredu meddyginiaethau, yn enwedig cyffuriau a reolir.**

Gwelsom yng nghofnodion y cleifion fod unrhyw feddyginiaethau a roddir yn cael eu cofnodi'n glir, a bod yr ymarferwyr yn rhoi gwybodaeth glir i'r cleifion. Ategwyd hyn gan yr hyn a ddywedodd y cleifion wrthym.

Gwelsom fod polisi boddhaol ar waith ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol a oedd yn cael ei adolygu bob blwyddyn. Yng nghofnodion y staff, gwnaethom nodi bod yr holl gymwysterau dadebru cardio-anadlol a chymorth cyntaf yn cydymffurfio â'r

gofynion. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau wythnosol yn cael eu cynnal ar feddyginiaethau brys, ac roedd padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel dan glo. Wrth adolygu'r cyfarpar brys, nodwyd gennym fod yr holl gyfarpar cymorth cyntaf yn gyfredol a bod silindrau ocsigen yn cael eu harchwilio a'u gwasanaethu'n rheolaidd. Nodwyd gennym fod angen gwella'r meysydd canlynol:

- Nid oedd y bagiau hunanchwyddo ar gyfer oedolion a phlant yn eu pecynnau gwreiddiol a oedd yn golygu nad oedd eu dyddiadau defnyddio yn hysbys.
- Roedd y masgiau wyneb ar gyfer y masgiau falf bag hunanchwyddo naill ai ar goll neu roedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio.

Oherwydd yr effaith bosibl ar ddiogelwch cleifion, aethpwyd i'r afael â'r pryderon hyn yn ystod yr arolygiad ac mae'r camau gweithredu a gymerwyd i'w gweld yn Atodiad A.

### **Diogelu Plant ac Oedolion**

Gwelsom fod polisi a gweithdrefn diogelu priodol ar waith ar gyfer diogelu plant ac oedolion. Nodwyd gennym fod arweinydd diogelu wedi'i enwi yn y polisi a'i fod yn cynnwys manylion cyswllt lleol er mwyn rhoi gwybod am bryderon. Gwelsom fod y polisi hwn wedi cael ei ddiweddarau'n ddiweddar, ei fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd drwy'r darparwr corfforaethol a'i fod yn cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan. Wrth adolygu cofnodion y staff, gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu oedolion a phlant.

### **Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol**

Gwelsom fod y cyfarpar clinigol mewn cyflwr diogel, ac roedd y cofnodion yn dangos bod amserlen cynnal a chadw briodol ar waith. Gwelsom y staff yn defnyddio'r cyfarpar yn gywir, a chadarnhaodd y staff eu bod yn hyderus wrth ddefnyddio'r cyfarpar. Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod hyfforddiant priodol wedi'i gwblhau ar ddefnyddio cyfarpar clinigol yn ddiogel. Gwelsom gynlluniau wrth gefn boddhaol a oedd yn amlinellu'r gweithdrefnau adrodd a'r trefniadau amgen ar gyfer darparu gofal amserol i gleifion.

Gwelsom wybodaeth yn y ffolder diogelu rhag ymbelydredd mewn perthynas â rheoli cyfarpar pelydr-X yn effeithiol, gan gynnwys cynghorydd diogelu rhag ymbelydredd penodol, asesiad risg cyfredol a llawn gwybodaeth, yn ogystal â'r polisi ymbelydredd. Nodwyd gennym fod rheolau lleol ar gael yn hawdd i'r staff.

## **Effeithiol**

### **Gofal Effeithiol**

Gwelsom fod gwasanaethau yn cael eu darparu'n unol ag anghenion clinigol y cleifion ar safle a oedd yn addas o ran maint a nifer y staff. Roedd gofal ar gael i



gleifion mewn modd amserol drwy broses frysbenno drylwyr, gan flaenoriaethu'r rhai hynny â'r anghenion mwyaf dybryd. Gwelsom fod cleifion yn cael eu hatgyfeirio at wasanaethau eraill yn briodol a bod yr atgyfeiriadau hyn yn cael eu monitro gan staff y practis.

### **Cofnodion Cleifion**

Gwnaethom edrych ar gofnodion 10 claf a oedd wedi'u storio mewn system gwbl ddigidol yn unol â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, ac a oedd yn destun polisi rheoli cofnodion priodol. Nodwyd gennym fod hen gofnodion yn cael eu cadw mewn cabinet dan glo.

Gwelsom fod y rheswm roedd claf yn ymweld â'r practis, hanes meddygol wedi'i lofnodi, siartiau sylfaenol llawn a chanfyddiadau archwiliadau periodontol sylfaenol oll yn cael eu cofnodi fel mater o drefn. O gofnodion y 10 claf y gwnaethom edrych arnynt, gwnaethom nodi'r meysydd canlynol lle mae angen atgyfnerthu nodiadau'r cleifion:

- Dim ond pedwar cofnod oedd yn cynnwys tystiolaeth o wybodaeth am hylendid y geg a deiet
- Rhoddwyd cyngor hybu iechyd i chwech o'r naw claf perthnasol
- Nid oedd hanner y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn dangos gwiriadau ar archwiliadau y tu allan a'r tu mewn i'r geg
- Nid oedd tystiolaeth o broses sgrinio ar gyfer canser mewn unrhyw gofnod
- O blith naw cofnod perthnasol, dim ond mewn un yr oedd tystiolaeth o gynllunio triniaeth wedi'i chofnodi
- Dim ond mewn un cofnod yr oedd tystiolaeth o gydsyniad ar sail gwybodaeth
- Dim ond mewn tri chofnod y gwelwyd asesiadau risg yn seiliedig ar geudodau, perio, traul dannedd a chanser y geg
- Nid oedd unrhyw gofnodion yn cynnwys tystiolaeth yn dangos bod y cleifion wedi cael eu holi am eu dewis iaith na manylion unrhyw gamau a gymerwyd ar ôl nodi'r iaith honno.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cywir, cynhwysfawr a chyflawn eu cadw bob amser yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU.**

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod dewis iaith cleifion, ac unrhyw gamau gweithredu mewn perthynas â'r iaith honno, yn cael eu cofnodi.**

O'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom mai dim ond pan oedd eu hangen fel sylfaen dystiolaeth briodol ar gyfer trin cleifion y byddai archwiliadau

pelydr-X yn cael eu defnyddio, er nad oedd y cyfiawnhad dros archwiliadau pelydr-X na'u canfyddiadau clinigol bob amser yn cael eu cofnodi.

**Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl gofnodion am driniaethau radiograffig yn gyflawn.**

Roedd yr ymarferwyr yn defnyddio asesiadau risg radiograffig i gefnogi'r broses o drin cleifion yn ddiogel, ac roedd y cleifion, a'u gofalwyr lle y bo'n berthnasol, yn cael gwybod am risgiau a manteision triniaeth radiograffig. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod gweithgareddau graddio a gwella ansawdd pelydr-X addas yn cael eu cynnal.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

### Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Nodwyd gennym fod trefniadau arweinyddiaeth boddhaol ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn effeithiol. Gwelsom dystiolaeth bod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd a chofnodion a oedd yn dangos bod pethau fel hyfforddiant staff, rheoli presenoldeb ac ymarferion tân yn cael eu trafod. Ni welsom dystiolaeth bod adnodd datblygu tîm yn cael ei ddefnyddio, er enghraifft, yr adnoddau a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

**Dylai'r rheolwr cofrestredig ymgymryd ag ymarfer datblygu tîm, gan ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael iddo.**

Gwelsom fod system ar-lein yn cael ei defnyddio i reoli'r practis drwy gontractiwr cydymffurfiaeth, a oedd yn golygu y gallai pob aelod o'r staff gael gafael ar y polisiau a'r gweithdrefnau diweddaraf. Gwelsom fod y lefelau staffio yn cael eu monitro gan ddefnyddio rota er mwyn sicrhau bod nifer priodol o staff â chymwysterau addas yn gweithio yn y practis.

Dywedodd pob aelod o'r staff a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym eu bod o'r farn bod y practis yn cymryd camau cadarnhaol o ran iechyd a llesiant, bod eu patrwm gweithio cyfredol yn sicrhau cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith ac nad yw eu swydd yn niweidiol i'w hiechyd.

## Y Gweithlu

### Gweithlu Medrus a Galluog

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum aelod o staff o blith y deg a oedd ar gael. Gwelsom fod pob aelod o'r staff yn bodloni'r gofynion cyfredol o ran hyfforddiant gorfodol a bod y practis yn talu i bob aelod o staff ymaelodi â darparwr hyfforddiant ar-lein. Clywsom gan y staff, a gwelsom yng nghofnodion y cyfarfod, fod cyfarfod staff diweddar wedi cael ei gynnal yn benodol i drafod datblygiad proffesiynol parhaus.

Gwelsom dystiolaeth bod arfarniadau staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd a chafodd hyn ei gadarnhau gan yr hyn a ddywedodd y staff wrthym. Hefyd, gwelsom fod prosesau sefydlu yn cael eu rheoli drwy restr wirio ar gyfer aelodau newydd o staff. Yn y cofnodion staff a welsom, gwnaethom nodi'r canlynol:

- Roedd cofrestriadau â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar waith ac yn cael eu rheoli gan y rheolwr cofrestredig
- Roedd gan bob aelod o'r staff dystysgrif Hepatitis B a thystysgrif fanylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Roedd yswiriant indemniad ar waith ar gyfer pob ymarferydd
- Roedd copïau o gontractau cyflogaeth wedi'u cadw ar ffeil ar gyfer pob gweithiwr.

Gwelsom fod hanes cyflogaeth a geirdaon y dylid eu casglu yn ystod y broses recriwtio naill ai ar goll neu mai dim ond rhywfaint o'r wybodaeth ofynnol a oedd wedi'i chofnodi. Nid oedd unrhyw fanylion ar ffeil ar gyfer chwech o'r deg cofnod staff. Nodwyd gennym fod y practis wedi newid dwylo yn ddiweddar ac nad oedd y wybodaeth honno wedi'i storio ar ffeil ar gyfer y staff a gyflogwyd cyn y newid hwnnw. Gwelsom fod yr holl fanylion wedi'u storio'n gywir a bod proses gadarn ar waith ar gyfer unrhyw ymgyrchoedd recriwtio a gynhaliwyd gan y tîm rheoli newydd.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd i AGIC o'r camau sydd ar waith i liniaru'r risg mewn perthynas â'r cofnodion o wiriadau cyn cyflogi sydd ar goll.**

Gwelsom fod polisiâu a gweithdrefnau boddhaol ar waith ar gyfer recriwtio ac ar gyfer achosion o chwythu'r chwiban gan staff.

## Diwylliant

### Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Gwelsom nad oedd y practis wedi casglu adborth gan gleifion yn ffurfiol ers i'r perchennog newid yn ddiweddar. Dywedodd y staff wrthym fod adborth anffurfiol yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd tîm a bod y practis yn bwriadu ffurfioli'r broses o gasglu adborth a'i gyhoeddi at sylw'r cleifion yn y dyfodol.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddatblygu system ar gyfer casglu adborth a'i gyhoeddi at sylw'r cleifion.**

Wrth edrych ar y weithdrefn gwyno, gwelsom fod y broses wedi'i chynllunio i ymateb i gwynion gan gleifion mewn modd amserol. Gwelsom gyfeiriadau at gymorth a gwasanaethau eirioli ac roedd arweinydd cwynion penodol ar gael i'r cleifion. Roedd posteri wedi'u harddangos yn y dderbynfa yn hysbysebu'r weithdrefn i gleifion ac roedd ffurflenni yn cael eu cadw yn y dderbynfa er mwyn cofnodi adborth anffurfiol gan gleifion.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cwynion a oedd yn cydymffurfio â pholisi'r practis.

## Dysgu, Gwella ac Ymchwil

### **Gweithgareddau Gwella Ansawdd**

Gwelsom fod y practis yn cynnal archwiliadau o'r trefniadau ar gyfer atal a rheoli heintiau, triniaethau radiograffig, cofnodion cleifion a gwastraff clinigol. Fodd bynnag, nid oedd adolygiadau ffurfiol gan gymheiriaid yn cael eu cynnal ac ni welsom dystiolaeth o archwiliadau rhagnodi gwrthfotigau nac archwiliadau rhoi'r gorau i smygu.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod adolygiadau ffurfiol gan gymheiriaid yn cael eu cynnal ac adolygu ei bolisi a'i weithdrefnau ar gyfer cynnal archwiliadau rhagnodi gwrthfotigau a rhoi'r gorau i smygu.**

Er i ni weld dystiolaeth bod archwiliadau o gofnodion cleifion yn cael eu cynnal, gwnaethom nodi nifer o faterion sydd wedi'u hamlinellu mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn y dylid bod wedi'u nodi yn ystod y broses archwilio.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wella effeithiolrwydd ei weithdrefn archwilio cofnodion cleifion, gan ystyried y cymorth sydd ar gael drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).**

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
<p>Nid oedd y bagiau hunanchwyddo ar gyfer oedolion a phlant yn eu pecynnau gwreiddiol a oedd yn golygu nad oedd eu dyddiadau defnyddio yn hysbys</p> <p>Roedd y masgiau wyneb ar gyfer y masgiau falf bag hunanchwyddo naill ai ar goll neu roedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio.</p>	<p>Pe bai argyfwng meddygol, gallai hyn beri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion.</p>	<p>Cafodd hyn ei uwchgyfeirio i'r staff yn ystod yr arolygiad.</p>	<p>Archebwyd eitemau newydd yn lle'r holl eitemau roedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio, a chawsant eu dosbarthu y diwrnod gwaith nesaf.</p>

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Celtic

Dyddiad yr arolygiad: 15 Tachwedd 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol ychwanegol yn ystod yr arolygiad hwn.					



# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Celtic

Dyddiad yr arolygiad: 15 Tachwedd 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dyweddodd 12 o ymatebwyr i holiadur AGIC i gleifion na fyddent yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys.	Dylai'r rheolwr cofrestredig wella'r wybodaeth sydd ar gael i'r cleifion ynghylch cael gafael ar ofal deintyddol brys.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 13 (1)	Mae gwybodaeth am gael gafael ar ofal deintyddol brys ar gael ac mae i'w gweld yn yr ystafell aros ac ar ddrws y fynedfa.  Mae'r wybodaeth hefyd ar gael ar daflenni'r practis.  Os bydd rhywun yn ffonio'r practis y tu allan i oriau gwaith, caiff y wybodaeth	Angela Hudson	Eisoes ar waith.

			<p>gyswllt mewn argyfwng ei rhestru.</p> <p>Caiff y cleifion wybod am y gweithdrefnau brys y tu allan i oriau gwaith ar lafar hefyd ac am yr yswiriant bydeang mewn argyfwng sy'n gysylltiedig â'u cynllun deintyddol, os yw'n briodol.</p>		
<p>Nodwyd gennym fod annibendod a chwprdd yn cuddio un o'r pwyntiau galw pe bai tân wrth ymyl yr ystafell staff. Cafodd y mater ei uwchgyfeirio at sylw'r staff ar y diwrnod a chafodd yr ardal ei chlirio. Nid oedd gwiriadau o'r pwyntiau galw yn rhan o restr wirio'r practis ar gyfer tân.</p>	<p>Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwiriadau cadarn ar waith ar gyfer pob agwedd ar ddiogelwch tân.</p>	<p>Adran 22 (4) (e)</p>	<p>Mae'r cwprdd bellach wedi cael ei symud fel y gellir cyrraedd y pwynt galw.</p>	<p>Angela Hudson</p>	<p>Cwblhawyd 15 Tachwedd 2023</p>

<p>Gwelsom fod mopiau gwahanol yn cael eu defnyddio i lanhau ardaloedd gwahanol, ond nodwyd gennym eu bod yn cael eu storio mewn mannau gwahanol o gwmpas y practis, roedd dau fop yn cael eu cadw yn y gegin ac roedd mopiau'n cael eu gadael i sychu yn eu bwcedi.</p>	<p>Dylai'r rheolwr cofrestredig adael mopiau i sychu'n briodol a storio pob un ohonynt mewn man addas.</p>	<p>Adran 22 (2) (a)</p>	<p>Mae man storio mopiau bellach wedi cael ei greu y tu allan i'r gegin lle caiff y mopiau a'r bwcedi eu storio ac mae'n cynnwys teclyn dal mopiau lle gellir gosod y mopiau i sychu.</p>	<p>Angela Hudson</p>	<p>Cwblhawyd 24 Tachwedd 2023.</p>
<p>Yn y deintyddfeydd, gwelsom ddroriau a oedd yn cynnwys cyfarpar clinigol ar gyfer y geg y gellir ei aildefnyddio a oedd wedi cael ei lanhau ond a oedd yn cael ei storio heb ei orchuddio. Roedd dalwyr pelydr-X heb ddeunydd pecynnu o'u hamgylch yn y deintyddfeydd hefyd.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr holl gyfarpar clinigol ei gadw wedi'i ddiheintio a'i storio'n briodol.</p>	<p>Adran 13 (2) (a)</p>	<p>Mae polisi'r practis wedi cael ei ddiweddarau ac mae offer wedi'i ddiheintio bellach yn cael ei orchuddio mewn droriau a chaiff y dalwyr pelydr-X eu cadw mewn bagiau fel mater o drefn.</p>	<p>Angela Hudson</p>	<p>Cwblhawyd 24 Tachwedd 2023</p>

<p>Gwelsom nad oedd dyfeisiau cofnodi digidol ar y peiriannau awtoclaf, a bod profion yn cael eu cynnal â llaw ar gyfer pob cylchred. Nid oedd hyn yn ein sicrhau bod digon o brofion yn cael eu cynnal.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd i AGIC fod profion yn cael eu cynnal mewn ffordd gadarn ar y peiriannau awtoclaf.</p>	<p>Adran 13 (2)</p>	<p>Mae cofnodwyr data digidol sy'n defnyddio Wi-Fi bellach wedi cael eu gosod ar y tri awtoclaf. Caiff cofnod llawn o bob cylchred bellach ei ddiweddarau bob wythnos.</p>	<p>Angela Hudson</p>	<p>Cwblhawyd 15 Rhagfyr 2023</p>
<p>Gwelsom fod lle yn brin yn yr ardaloedd dihalogi ym mhob deintyddfa ac nad oedd yr ardaloedd hyn wedi'u diffinio'n glir fel ardaloedd 'glân' a 'budr', y gallai'r ddau beth gynyddu'r risg o groes-halogi. Nodwyd gennym hefyd fod y bath ar gyfer argraffiadau a ddefnyddir i ddihalogi yn cael ei gadw yn rhan 'lân' yr ardal ddihalogi.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig nodi rhannau 'glân' a 'budr' ardaloedd dihalogi yn glir ac ar ffurf weledol.</p> <p>Dylai'r rheolwr cofrestredig symud y bath ar gyfer argraffiadau o ran 'lân' y broses ddihalogi.</p>	<p>Adran 13 (3) (b)</p>	<p>Mae'r arwyddion ar gyfer dynodi'r manau glân a budr wedi cael eu hailosod ar wal gefn man gwaith y ddeintyddfa ac mae llinell ddu ar yr arwyneb gwaith er mwyn gwahaniaethu rhwng y ddwy ochr.</p>	<p>Angela Hudson</p>	<p>Cwblhawyd 24 Tachwedd 2023</p>

<p>Gwelsom nad oedd y ddogfennaeth ar gyfer gwirio'r deintyddfeydd yn ddyddiol wedi cael ei chwblhau ers mis Rhagfyr 2022.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff rhestrau gwirio dyddiol ar gyfer y deintyddfeydd eu cofnodi fel mater o drefn.</p>	<p>Adran 22 (2)</p>	<p>Mae cofnodlyfr ar gyfer cwblhau rhestr wirio ddyddiol bellach wedi cael ei osod ym mhob deintyddfa, a chaiff ei lofnodi a'i ddyddio bob dydd.</p>	<p>Angela Hudson</p>	<p>Cwblhawyd 30 Tachwedd 2023</p>
<p>Gwelsom fod defnydd cadair triniaeth yn un o'r deintyddfeydd wedi rhwygo. Ni chawsom sicrwydd y gellid glanhau'r cadeiriau hyn yn effeithiol oherwydd eu cyflwr.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw er mwyn gallu ei lanhau a'i ddihalogi'n ddiogel.</p>	<p>Adran 13 (2) (a)</p>	<p>Rydym yn aros am ddyfynbrisiau i ailorchuddio neu drwsio'r rhwygiadau bach ar y cadeiriau.</p>	<p>Angela Hudson</p>	<p>Disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau ym mis Mawrth 2024</p>
<p>Gwelsom fod modelau gypswm yn cael eu dychwelyd i'r cleifion.</p>	<p>Dylai'r rheolwr cofrestredig gynnwys gypswm fel rhan o'r contract gwaredu gwastraff.</p>	<p>Adran 22</p>	<p>Mae contract bellach ar waith gyda gwasanaethau gwastraff Initial ac mae gennym dwb er mwyn gwaredu modelau plastr.</p>	<p>Angela Hudson</p>	<p>Cwblhawyd 30 Tachwedd 2023</p>

<p>Gwelsom fod meddyginiaethau brys yr oedd eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio yn cael eu gwaredu mewn fferyllfa leol, gan gynnwys y rhai a restrwyd fel cyffuriau a reolir o dan ddeddfwriaeth camdefnyddio cyffuriau. Dywedodd y staff wrthym nad oeddent yn cael unrhyw dderbynebau wrth waredu'r cyffuriau a reolir hyn ac ni welsom unrhyw dystiolaeth ar ffeil eu bod yn cael eu gwaredu.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal llwybr archwilio cadarn wrth waredu meddyginiaethau, yn enwedig cyffuriau a reolir.</p>	<p>Adran 13 (4)</p>	<p>Polisi'r practis bellach yw cael derbynneb ar gyfer unrhyw feddyginiaethau sydd wedi darfod a gaiff eu gwaredu yn y fferyllfa.</p>	<p>Angela Hudson</p>	<p>Cwblhawyd 30 Tachwedd 2023</p>
<p>Gwnaethom nodi'r meysydd canlynol lle mae angen atgyfnerthu nodiadau'r cleifion:</p> <p>Dim ond pedwar cofnod oedd yn cynnwys</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cywir, cynhwysfawr a chyflawn eu cadw bob amser yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau</p>	<p>Adran 20 (1) Adran 13 (1) (a)</p>	<p>Mae'r nodiadau ar yr archwiliad bellach yn cynnwys ffurflen lle caiff risgiau pydredd, perio, hylendid y geg, colli arwyneb dannedd a chanser eu hasesu.</p>	<p>Angela Hudson</p>	<p>30 Tachwedd 2023</p>

<p>tystiolaeth o wybodaeth am hylendid y geg a deiet</p> <p>Rhoddwyd cyngor hybu iechyd i chwech o'r naw claf perthnasol</p> <p>Nid oedd hanner y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn dangos gwiriadau ar archwiliadau y tu allan a'r tu mewn i'r geg</p> <p>Nid oedd tystiolaeth o broses sgrinio ar gyfer canser mewn unrhyw gofnod</p> <p>O blith naw cofnod perthnasol, dim ond mewn un yr oedd tystiolaeth o gynllunio triniaeth wedi'i chofnodi</p> <p>Dim ond mewn un cofnod yr oedd tystiolaeth o</p>	<p>Cyfadrn Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU.</p> <p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod dewis iaith cleifion, ac unrhyw gamau gweithredu mewn perthynas â'r iaith honno, yn cael eu cofnodi.</p>		<p>Yn ogystal ag archwiliadau y tu allan a'r tu mewn i'r geg</p> <p>Mae gennym nifer bach o gleifion y mae'n well ganddynt gael gwasanaeth Cymraeg a chaiff hyn ei gofnodi fel nodyn 'naid' ar eu cofnodion clinigol.</p>		
--	--	--	---	--	--

<p>gydsyniad ar sail gwybodaeth</p> <p>Dim ond mewn tri chofnod y gwelwyd asesiadau risg yn seiliedig ar geudodau, perio, traul dannedd a chanser y geg</p> <p>Nid oedd unrhyw gofnodion yn cynnwys tystiolaeth yn dangos bod y cleifion wedi cael eu holi am eu dewis iaith na manylion unrhyw gamau a gymerwyd ar ôl nodi'r iaith honno.</p>					
<p>Nid oedd y cyfiawnhad dros archwiliadau pelydr-X na'u canfyddiadau clinigol bob amser yn cael eu cofnodi.</p>	<p>Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl gofnodion am driniaethau radiograffig yn gyflawn.</p>	<p>Adran 20 (1)</p>	<p>Mae ffurflen 'quicknote' hefyd ar gael i gofnodi cyfiawnhad, gradd a chanfyddiadau clinigol radiograffig. Mae'r staff wedi cael gwybod bod yr adnoddau hyn ar gael.</p>	<p>Angela Hudson</p>	<p>30 Tachwedd 2023</p>



<p>Ni welsom dystiolaeth bod adnodd datblygu tîm yn cael ei ddefnyddio, er enghraifft, yr adnoddau a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).</p>	<p>Dylai'r rheolwr cofrestredig ymgymryd ag ymarfer datblygu tîm, gan ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael iddo.</p>	<p>Adran 16 (1) (a)</p>	<p>Rydym wedi gwneud ymholiadau i gofrestru'r tîm ar y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth</p>	<p>Angela Hudson</p>	<p>Wedi e-bostio ar 1 Ionawr 2024</p>
<p>Gwelsom fod hanes cyflogaeth a geir daon y dylid eu casglu yn ystod y broses recriwtio naill ai ar goll neu mai dim ond rhywfaint o'r wybodaeth oedd wedi'i chadw. Nid oedd unrhyw fanylion ar ffeil ar gyfer chwech o'r deg cofnod staff. Nodwyd gennym fod y practis wedi newid dwylo yn ddiweddar ac nad oedd y wybodaeth honno wedi'i storio ar ffeil ar gyfer y staff a gyflogwyd cyn y newid hwnnw. Gwelsom</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd i AGIC o'r camau sydd ar waith i liniaru'r risg mewn perthynas â'r cofnodion o wiriadau cyn cyflogi sydd ar goll.</p>	<p>Adran 18</p>	<p>Cynhelir asesiad risg mewn perthynas â staff hanesyddol.</p>	<p>Angela Hudson</p>	<p>I'w gwblhau cyn mis Mawrth 2024</p>

<p>fod yr holl fanylion wedi'u storio'n gywir a bod proses gadarn ar waith ar gyfer unrhyw ymgyrchoedd recriwtio a gynhaliwyd gan y tîm rheoli newydd.</p>					
<p>Gwelsom nad oedd y practis wedi casglu adborth gan gleifion yn ffurfiol ers i'r perchennog newid yn ddiweddar. Dywedodd y staff wrthym fod adborth anffurfiol yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd tîm a bod y practis yn bwriadu ffurfioli'r broses o gasglu adborth a'i gyhoeddi at sylw'r cleifion yn y dyfodol.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddatblygu system ar gyfer casglu adborth a'i gyhoeddi at sylw'r cleifion.</p>	<p>Adran 16</p>	<p>Mae blwch adborth gan gleifion sy'n cynnwys ffurflenni wedi cael ei osod yn yr ystafell aros.</p>	<p>Angela Hudson</p>	<p>Cwblhawyd 7 Rhagfyr 2023</p>
<p>Nid oedd adolygiadau ffurfiol gan gymheiriaid yn cael eu cynnal ac ni welsom dystiolaeth o</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod adolygiadau ffurfiol gan gymheiriaid yn cael eu cynnal ac adolygu ei</p>	<p>Adran 16 (1) (a)</p>	<p>Roedd adolygiadau anffurfiol gan gymheiriaid wedi bod yn cael eu cynnal</p>	<p>Angela Hudson</p>	<p>Cwblhawyd 30 Tachwedd 2023</p>

archwiliadau rhagnodi gwrthfotigau nac archwiliadau rhoi'r gorau i smygu.	bolisi a'i weithdrefnau ar gyfer cynnal archwiliadau rhagnodi gwrthfotigau a rhoi'r gorau i smygu.		eisoes - caiff y broses bellach ei ffurfioli a'i chofnodi'n briodol.		
Er i ni weld tystiolaeth bod archwiliadau o gofnodion cleifion yn cael eu cynnal, gwnaethom nodi nifer o faterion sydd wedi'u hamlinellu mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn y dylid bod wedi'u nodi yn ystod y broses archwilio.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wella effeithiolrwydd ei weithdrefn archwilio cofnodion cleifion, gan ystyried y cymorth sydd ar gael drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).	Adran 16 (1) (a)	Caiff adnodd archwilio clinigol newydd ei ddefnyddio yn seiliedig ar argymhellion AaGIC. Roedd yr adnodd archwilio roeddem yn ei ddefnyddio yn rhy gymhleth ac nid oedd yn canolbwyntio ar y wybodaeth ofynnol hanfodol.	Angela Hudson	Parhaus - dyddiad gorffen ym mis Ebrill 2024 pan fydd y staff ar gael.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau):** Angela Hudson

**Teitl swydd:** Prif Ddeintydd

**Dyddiad:** 1 Ionawr 2024